**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000

## Cefndir

Mae adran 48 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn darparu, mewn perthynas ag awdurdodau lleol, y bydd trefniadau prydlesu (tir neu nwyddau) a chytundebau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau, o dan amgylchiadau penodol, yn "drefniant credyd".

Mae adran 50 o'r Ddeddf yn cynnwys terfynau ar p•er awdurdodau lleol i wneud trefniadau credyd, lle mae angen darganfod cost y trefniant i wneud hynny.

O dan adran 49 cyfrifir cost y trefniant drwy gyfeirio at y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan yr awdurdod lleol. Am y blynyddoedd sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r trefniant credyd i fodolaeth, penderfynir ar y gydnabyddiaeth drwy gyfeirio at y fformwla a nodir yn adran 49(2).

Un o elfennau'r "fformwla" hon yw cyfradd ganrannol y gostyngiad a ragnodwyd ac fe'i rhagnodwyd drwy reoliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol y daeth y trefniant i fodolaeth.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

## Sylwadau Cyffredinol

Byddai'n haws darllen y Nodyn Esboniadol petai wedi'i rannu'n dri neu bedwar paragraff.

Mae'r troednodiadau ar ddiwedd yr offeryn er mwyn osgoi problemau wrth brosesu geiriau. Bydd angen eu dyrannu i'w tudalennau priodol yn y copi argraffedig.

Yn y rhaglith Saesneg dylai "make" fod yn "makes".

Dylai'r rheoliadau ddweud yn benodol eu bod yn gymwys i Gymru yn unig. Un ffordd o ymdrin â hyn fyddai i reoliad 2 ddarllen –

> "… adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 o ran ei gymhwysiad i Gymru….".

**M. GERMAN**

**Cadeirydd**

**Y Pwyllgor Deddfau**

1af Chwefror 2000

LC43

| | | |
|---|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | | **National Assembly for Wales** |
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000** | | **The Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2000/2001) (Wales) Regulations 2000** |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note is not part of the Regulations)* |
| Mae Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn darparu ar gyfer cyllid cyfalaf awdurdodau lleol. Mae adran 49(2) yn nodi fformwla ar gyfer penderfynu, at ddibenion Rhan IV, gwerth y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan awdurdod lleol o dan drefniant credyd mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y daw'r trefniant i fodolaeth. Un o'r ffactorau y cyfeirir ato yn y fformwla yw cyfradd ganrannol y gostyngiad a ragnodir ar gyfer blwyddyn ariannol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi 7.6 y cant, sef 0.8 y cant yn llai na chyfradd y gostyngiad a ragnodwyd ar gyfer 1999/2000. | | Part IV of the Local Government and Housing Act 1989 makes provision for the capital finance of local authorities. Section 49(2) sets out a formula for determining, for the purposes of Part IV, the value of the consideration falling to be given by a local authority under a credit arrangement in any financial year after the one in which the arrangement comes into being. The percentage rate of discount prescribed for a financial year is one of the factors referred to in the formula. For the financial year beginning on 1st April 2000 these Regulations prescribe 7.6 per cent. which is 0.8 per cent less than the rate of discount prescribed for 1999/2000. |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **LLYWODRAETH LEOL, CYMRU** | | **LOCAL GOVERNMENT, WALES** |
| **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000** | | **The Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2000/2001) (Wales) Regulations 2000** |
| *Wedi'u gwneud 2000*<br><br>*Yn dod i rym 1 Ebrill 2000* | | *Made 2000*<br><br>*Coming into force 1St April 2000* |
| *Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 49 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989[a] ac a freiniwyd ynddo bellach[b]:* | | *The National Assembly for Wales make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 49(2) of the Local Government and Housing Act 1989[a], and now vested in it[b]:* |
| 1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000. | | 1. These Regulations may be cited as the Local Authorities (Capital Finance) (Rate of Discount for 2000/2001) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st April 2000. |
| 2. 7.6 y cant fydd cyfradd ganrannol y gostyngiad a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 at ddibenion diffinio "r" yn adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | | 2. The percentage rate of discount prescribed for the financial year beginning on 1st April 2000 for the purposes of defining "r" in section 49(2) of the Local Government and Housing Act 1989 shall be 7.6 per cent. |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998[c] | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998[c] |

| | | |
|---|---|---|
| 2000<br><br>Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol | | 2000<br><br>The Presiding Officer of the National Assembly |
| | | |
| (a) 1989 p.42. | | (a) 1989 c.42. |
| (b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O. S. 1999/672). | | (b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). |
| (c) 1998 p.38. | | (c) 1998 c.38. |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |